



Cydnabod a Gwobrwyo Gwirfoddolwyr

Dylai cydnabod y cyfraniad a wna gwirfoddolwyr i'ch sefydliad neu wasanaeth fod yn rhan allweddol o'ch rhaglen wirfoddoli. Mae cydnabod yr amser a roddant a'r gwahaniaeth a wnânt yn dangos eich bod yn eu gwerthfawrogi, ac yn cysylltu'n uniongyrchol â chadw gwirfoddolwyr. Mae gwirfoddolwyr sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn llawer mwy tebygol o aros!

Nid oes rhaid iddo fod yn gostus, ac mae'n werth cofio y bydd pobl wahanol yn ffafrio ffurfiau gwahanol ar gydnabyddiaeth, ni fydd pawb yn gyfforddus â diolchiadau cyhoeddus. Ym mis Ionawr 2019, cyhoeddodd NCVO adroddiad ar brofiad gwirfoddolwyr, Time Well Spent yn dangos mai'r ffurf fwyaf poblogaidd ar gydnabod gwirfoddoli (42%) oedd diolchiadau ysgrifenedig neu ar lafar gan y sefydliad. Mae adran ar ganfyddiadau ymatebwyr o gydnabod gwirfoddoli yn yr adroddiad.



<https://www.ncvo.org.uk/policy-and-research/volunteering-policy/research/time-well-spent>



Dweud diolch – Mae diolch wyneb yn wyneb, drwy anfon e-bost neu gerdyn diolch yn ffordd syml neu effeithiol o ddangos eich gwerthfawrogiad. Mae rhai sefydliadau yn cynnwys negeseuon personol gan Brif Weithredwr y sefydliad a/neu negeseuon gan ddefnyddwyr gwasanaeth.



Gadael i wirfoddolwyr ddeall y gwahaniaeth a wnânt

– Mae nifer o wirfoddolwyr wedi'u cymhell gan genhadaeth eich sefydliad felly gadewch iddynt wybod sut mae eu cyfraniad wedi helpu eich sefydliad i gyflawni ei nodau. Gallech restru'r 10 canlyniad mae gwirfoddolwyr wedi galluogi eich sefydliad i'w cyflawni, gellid cyflwyno hyn i wirfoddolwyr ar ffurf tystysgrif neu gellid ei bostio ar eich gwefan.

Rhoi cyfleoedd i wirfoddolwyr wella eu datblygiad personol – Mae cynnig hyfforddiant ychwanegol neu ymuno â hyfforddiant staff yn ffordd dda o helpu gwirfoddolwyr i gynyddu eu gwybodaeth a datblygu eu sgiliau. Rhaid i chi sicrhau bod yr hyfforddiant yn berthnasol i'w rôl fel nad yw'n cael ei ystyried yn dâl am eu gwaith gwirfoddol.





Gwahodd gwirfoddolwr i ymgymryd â rôl llysgennad ar gyfer eich sefydliad

– Gellir ystyried cefnogi gwirfoddolwyr i ymgymryd â'r rolau hyn yn ddull o ddangos bod y gwirfoddolwyr yn cael eu gwerthfawrogi a'u hymddiried i gynrychioli eich sefydliad.

Cyhoeddi'r hyn a wna gwirfoddolwyr

– cynhyrchu fideo o'u gwaith, cyhoeddi straeon newyddion da yn y wasg, ar y wefan a safleoedd mewnwyd fel bod y cyhoedd a staff eraill yn gallu gweld yn glir y gefnogaeth wych a roddant i'ch sefydliad.

Cynnwys gwirfoddolwyr mewn penderfyniadau

– cynnal cyfarfodydd ar gyfer gwirfoddolwyr neu wahodd gwirfoddolwyr i gyfarfodydd staff. Mae'n bwysig bod lleisiau gwirfoddolwyr yn cael eu clywed. Gall eu syniadau a dealltwriaeth fod yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth i'ch sefydliad i fwydo i mewn i gynlluniau a phrosesau penderfynu.

Diweddarau gwirfoddolwyr – Diweddarau gwirfoddolwyr gyda'r hyn sy'n digwydd yn y sefydliad, mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol i wirfoddolwyr sy'n cefnogi ar nifer o safleoedd neu yn y gymuned.

Tystysgrifau – Gallai hyn fod yn dystysgrif diolch syml neu'n dystysgrif sy'n nodi hyd gwasanaeth neu ben-blwydd gwasanaeth gwirfoddol.

Digwyddiadau – Mae rhai sefydliadau yn trefnu digwyddiadau arbennig i ddathlu llwyddiannau gwirfoddolwyr. Mae Wythnos Gwirfoddolwyr yn amser gwych i ddiolch yn ffurfiol, a chydabod eich gwirfoddolwyr neu os oes gennych ddyddiau/wythnosau ymwybyddiaeth, efallai yr hoffech sicrhau bod dathlu gwirfoddolwyr yn rhan o hyn.





Bathodynnau/gwisg – Mae gan rai timau o wirfoddolwyr fathodynnau a/neu grysau-t a gall hyn helpu pobl i deimlo'n rhan o dîm a synnwyr o falchder yn cynrychioli eich sefydliad. Gall hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol i wirfoddolwyr mewn rôl sy'n wynebu'r cyhoedd.



Cymorth a goruchwyliaeth –

Dylai gwirfoddolwyr gael person enwebedig y gallant fynd atynt gyda chwestiynau ac ymholiadau. Cynigir y rhan fwyaf o gymorth yn anffurfiol fel rhan o weithgareddau o ddydd i ddydd ac mae'n ymwneud â chymryd yr amser i sgwrsio a dod i adnabod eich gwirfoddolwyr. Mae goruchwyliaeth fwy ffurfiol hefyd yn fuddiol gan ei bod yn caniatáu ar gyfer cyfathrebu ddwy ffordd, a gellir datrys unrhyw broblemau cyn iddynt egino a gall adborth roi sicrwydd i wirfoddolwyr

Gwobrau – Mae gan rai sefydliadau eu gwobrau mewnol eu hunain sy'n ffordd wych o ddod â'r tîm cyfan o staff a gwirfoddolwyr ynghyd. Efallai yr hoffech enwebu eich gwirfoddolwyr ar gyfer gwobrau allanol hefyd.

Wythnos Genedlaethol y Gwirfoddolwyr (1 – 7 Mehefin)

Mae Wythnos Genedlaethol y Gwirfoddolwyr yn gyfle perffaith i ddathlu a llongyfarch gwirfoddolwyr am eu holl gyfraniad i'r sefydliad.



<https://volunteersweek.org>

Gwirfoddoli Cymru

Gall gwirfoddolwyr o bob oed gofnodi eu horiau ar wefan Gwirfoddoli Cymru ac ennill bathodynnau llwyddo digidol ar gyfer 50, 100, 200, 500 a 1000 awr o wirfoddoli.



<https://volunteering-wales.net/vk/volunteers/index-covid.htm>

Cynlluniau Cydnabod Lleol

Yn ogystal, mae cynlluniau cydnabod gwirfoddolwyr lleol yn y rhan fwyaf o Gynghorau Gwirfoddol Sirol, cysylltwch â'ch Canolfan Wirfoddolwyr leol am ragor o fanylion.



Cynlluniau Cydnabod Cenedlaethol

Mae WCVA (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru) yn gweinyddu Gwobrau Elusennau Cymru, sy'n cynnwys sawl categori ar gyfer cydnabod gwirfoddolwyr.



<https://wcva.cymru/training-events-awards>

Gwirfoddolwyr Ifanc

Mae Wythnos **#iwill** yn wythnos flynyddol (ym mis Tachwedd), i rannu a dathlu straeon pobl ifanc sy'n ymwneud â gweithredu cymdeithasol.



<https://www.iwill.org.uk>

Gwobr Diana

Wedi'i sefydlu er cof am Diana, Tywysoges Cymru, Gwobr Diana yw'r anrhydedd mwyaf y gall unrhyw berson ifanc rhwng 9-25 oed ei dderbyn am eu gweithredu cymdeithasol neu waith dyngarol.

Dyma'r wobwr hynaf i bobl ifanc drwy broses enwebu ôl-weithredol yn unig. Nid yw pobl ifanc yn gweithio tuag at y wobwr, yn hytrach maent yn arddangos eu haddasrwydd drwy eu gweithredoedd, heb unrhyw ddisgwyliad o gael eu gwobrwyo.

Gofynnwch iddynt!

Os ydych yn ansicr gofynnwch i'ch gwirfoddolwyr. Gallwch ofyn i hyn gael ei drafod mewn cyfarfodydd gwirfoddolwyr ac mae rhai sefydliadau yn cynnal arolygon gwirfoddolwyr blynyddol.



Prosiect amlasiantaethol yw

Cymorth Gwirfoddoli Gorllewin Morgannwg

sy'n creu adnoddau a rennir i ddatblygu gwybodaeth gwirfoddolwyr sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr a'r gwaith o'u rheoli a chydlynu ar draws ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Ariennir gan Gronfa Adfer Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru.

Partneriaid y prosiect yw:

Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Cyngor Abertawe, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe a Phartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg.

Am ragor o wybodaeth, ewch i:

www.westglamorgan.org.uk/wgvs